| | |
|---|---|
| Fersiwn | 8 |
| Dyddiad Diwygio diwethaf | Ebrill 2026 |

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# HS 18

# Polisi Ysmygu yn y Gweithle

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| | |
| **ENW'R POLISI** | **Polisi Ysmygu yn y Gweithle** |
| Adran | Adnoddau Dynol |
| Rhif Ffôn | 01443 425536 |
| Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi | Mawrth 2008 |
| Swyddog Adolygu | Adrian Perry |
| Dyddiad Diwygio | Ebrill 2028 |
| Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 2008 |
| | |
| **HANES DIWYGIO** | |
| Dyddiad | Diwygiwyd gan |
| | |
| Chwefror 2010 | Mike Murphy |
| Awst 2012 | Mike Murphy |
| Ebrill 2013 | Mike Murphy |
| Gorffennaf 2015 | Mike Murphy |
| Awst 2016 | Mike Murphy |
| Awst 2018 | Mike Murphy |
| Mawrth 2021 | Mike Murphy |
| Ebrill 2026 | Adrian Perry |
| | |
| **CYMERADWYO'R DDOGFEN** | |
| Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan: | Dyddiad Cymeradwyo |
| Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol | Mawrth 2026 |
| Rheolwyr y Cyngor | |
| Y Cabinet | Dd/B |

CYNNWYS


1. Cyflwyniad ..... 1
2. Datganiad Polisi..... 1
   Canllawiau Polisi ..... 1
3. Cyfyngiadau ar ysmygu ..... 1
4. Ysmygu yn ystod egwyl ..... 6
5. Gweithwyr sy’n ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi ..... 6
6. Arwyddion..... 7
7. Cysgodfeydd..... 7
8. Ymyrraeth ..... 7
9. Cyngor ..... 8

Rhestr Wirio i Reolwyr..... 9

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Wrth baratoi'r Datganiad Polisi yma, mae'r Cyngor wedi cymryd i ystyriaeth:

- ei gyfrifoldeb i'w weithwyr ac eraill o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974
- ei ymrwymiad i fenter Safonau Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru, sydd ag iechyd a lles cyflogwyr wrth ei gwraidd
- y ddeddfwriaeth 'Di-fwg' a gafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
- Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

## 2. DATGANIAD POLISI

2.1 **At ddibenion y polisi yma, bydd y cyfeiriad at 'YSMYGU' yn cwmpasu sigaréts ac e-sigaréts/fêps (gan gynnwys fêps a thybaco wedi'i gynhesu).**

2.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod y ffaith mai ysmygu yw'r achos mwyaf o glefydau ataliadwy a marwolaeth cyn pryd yng Nghymru. Mae hefyd yn cydnabod y ffaith y gall pobl sydd ddim yn ysmygu ddioddef o glefydau sydd fel arfer yn cael eu cysylltu ag ysmygu, megis canser yr ysgyfaint a chlefyd y galon drwy fewnanadlu mwg pobl eraill (h.y. ysmygu goddefol).

Oherwydd hynny, mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith iach, di-fwg ar gyfer ei weithwyr ac ymwelwyr i'w safle.

2.3 Mae fepio nicotin yn llai niweidiol nac ysmygu. Mae hefyd yn un o'r dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu. Serch hynny, dydy fepio ddim heb ei beryglon, a dydyn ni ddim yn gwybod eto beth allai'r effeithiau hirdymor fod.

2.4 Y Cyfarwyddwyr neu'r Penaethiaid Gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi yma ar waith ac am baratoi strategaeth gweithredu.

## CANLLAWIAU POLISI

## 3. CYFYNGIADAU AR YSMYGU

3.1 Er bod y ddeddfwriaeth 'di-fwg' sydd wedi'i rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag ysmygu tybaco yn unig, mae'r cyfyngiadau yn y polisi yma ynglŷn ag ysmygu yr un mor berthnasol i gynhyrchion tybaco a defnyddio e-sigaréts/fêps (gan gynnwys fêps a thybaco wedi'i gynhesu), ac eithrio pan na fydd defnyddio e-sigaréts/fêps wedi'i gyfyngu mewn rhai

amgylchiadau, fel y nodir yn 3.3).

3.2 Dydy ysmygu gan unrhyw un, gan gynnwys gweithwyr, swyddogion ac aelodau etholedig o'r Cyngor, a phobl sydd ddim yn gweithio i'r Cyngor megis contractwyr sy'n gweithio ar ran y Cyngor, pobl sy'n dosbarthu nwyddau ac ati, ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â swyddfeydd y Cyngor, ddim yn cael ei ganiatáu:

- y tu mewn i adeiladau sydd o dan berchnogaeth y Cyngor a phob swyddfa arall sydd o dan reolaeth y Cyngor, gan gynnwys adeiladau sydd wedi'u rhentu neu'u llogi. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd strwythurol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r adeilad, e.e. dihangfeydd tân, ferandâu, drysau
- wrth yrru neu deithio mewn cerbydau o eiddo'r Cyngor, gan gynnwys cerbydau sydd wedi'u llogi
- mewn cerbydau sy'n eiddo preifat, wrth gludo gweithwyr a/neu gleientiaid ar fusnes y Cyngor
- yng nghartrefi defnyddwyr gwasanaeth gan weithwyr, contractwyr neu eraill sy'n gweithio ar ran y Cyngor
- ar gyfer gweithwyr, swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor pan fyddan nhw ar ddyletswydd, a chontractwyr wrth weithio ar ran y Cyngor, wrth ymweld ag adeiladau busnes eraill

3.3 Ar ôl 1 Mawrth 2021, chaiff **neb** ysmygu **tybaco**:

- ar safleoedd ysbyty
- ar safleoedd ysgol
- mewn meysydd chwarae cyhoeddus
- mewn lleoliadau gofal oriau dydd awyr agored a lleoliadau gwarchod plant

Lle mae'r Cyngor yn berchen ar yr adeiladau/lleoliadau yma neu'n eu rheoli, mae'r cyfyngiad hefyd yn berthnasol i ddefnyddio e-sigaréts/fêps.

Lle nad yw'r Cyngor yn berchen ar yr adeiladau/lleoliadau yma na'u rheoli, mae'r cyfyngiad yn dal i fod yn berthnasol i ddefnyddio e-sigaréts/fêps ar gyfer gweithwyr, swyddogion ac Aelodau etholedig y Cyngor pan fyddan nhw ar ddyletswydd, a chontractwyr wrth weithio ar ran y Cyngor.

Lle nad yw'r Cyngor yn berchen ar yr adeiladau/lleoliadau yma na'u rheoli, yna, does dim hawl i'r Cyngor osod cyfyngiadau ar ddefnyddio

e-sigaréts/fêps gan weithwyr, swyddogion ac Aelodau etholedig y Cyngor pan fyddan nhw **ddim** ar ddyletswydd, ar gontractwyr pan fyddan nhw **ddim** yn gweithio ar ran y Cyngor, nac ar y rheiny sydd ddim yn weithwyr (er y gall cyfyngiadau o'r fath gael eu gosod gan y rhai sy'n berchen ar yr adeilad neu'n ei reoli).

3.4 Yn ogystal â'r uchod, does dim hawl i weithwyr y Cyngor, beth bynnag yw eu swyddi nhw, neu Aelodau etholedig, ysmygu tra byddan nhw'n gweithio i'r Cyngor, ar ddyletswydd neu'n cynrychioli'r Cyngor, waeth beth maen nhw'n ei wneud neu waeth lle maen nhw ar y pryd.

Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- os ydych chi'n gweithio yn yr awyr agored, megis ar stryd, er enghraifft os ydych chi'n codi sbwriel o'r stryd, casglu sbwriel o gartrefi, gweithio ar y priffyrdd, ac ati
- os ydych chi'n teithio, er enghraifft gweithiwr sy'n teithio i gyfarfod, gweithiwr gofal sy'n teithio o'u canolfan i gartref cleient neu o gartref un cleient i'r llall (h.y. tra rydych chi yn y gwaith), waeth beth yw'r dull o deithio, hyd yn oed os ydych chi'n teithio yn eich car eich hun neu ar droed
- os ydych chi'n aelod etholedig sy'n cynrychioli'r Cyngor yn rhinwedd eich swydd, waeth beth yw'r digwyddiad a waeth lle mae'n cael ei gynnal

Caiff gweithwyr sy'n dymuno ysmygu wneud hynny yn eu hamser eu hunain.

**Os ydych chi'n cael eich talu ar y pryd gan y Cyngor ac rydych chi ar ddyletswydd neu'n cynrychioli'r Cyngor, does dim hawl gyda chi i ysmygu – does dim eithriadau.**

3.5 Mae ysmygu yn y gweithle dim ond yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd ysmygu dynodedig a lle mae'n ymarferol i ardaloedd o'r fath gael eu dynodi. Lle bo'n ymarferol, dylai ardaloedd allanol ar wahân gael eu dynodi i'r rheiny sy'n ysmygu cynnyrch tybaco a'r rheiny sy'n ysmygu e-sigaréts/fêps.

Serch hynny, efallai na fydd hi'n ymarferol darparu ardaloedd ysmygu allanol dynodedig gael mewn rhai gweithleoedd, er enghraifft oherwydd cyfyngiadau gofod, a chyfrifoldeb y rheolwr perthnasol (e.e. y rheolwr swyddfa, y rheolwr safle, y rheolwr depo ac ati, fel y bo'n briodol) yw penderfynu darparu ardaloedd o'r fath ai peidio, ac ar leoliad yr ardaloedd hynny.

Dylai ardaloedd ysmygu dynodedig gael eu lleoli yn ddigon pell oddi wrth unrhyw ddrysau a ffenestri er mwy atal y mwg rhag dod i mewn i'r adeilad ac effeithio ar bobl eraill. Dylai ystyriaeth gael ei rhoi hefyd i sicrhau:

- nad yw'r ardal ar lwybr mynedfa/allanfa (neu'n agos ato) lle gallai mwg ail law effeithio ar bobl eraill
- nad yw mynediad i'r ardal yn peri risg i weithwyr, er enghraifft, o orfod croesi ffordd brysur
- nad yw'r ardal ei hun yn peri risg, er enghraifft, o gael ei lleoli mewn man cyhoeddus unig a all ddod yn fygythiol i ysmygwr unigol ar ôl iddi dywyllu
- bod biniau diffodd addas yn cael eu darparu i leihau sbwriel a'r perygl o dân

3.6 Oherwydd adroddiadau yn y cyfryngau, a rhybuddion gan y Gwasanaethau Tân ac Achub, am e-sigaréts/fêps yn ffrwydro ac yn dechrau tanau tra maen nhw'n cael eu gwefru, does dim hawl gan weithwyr neu bobl eraill wefru e-sigaréts/fêps yn y gweithle neu mewn cerbydau y mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw neu gerbydau mae'r Cyngor yn eu rhentu neu'n llogi.

3.7 Bydd unrhyw weithiwr/Aelod etholedig sy'n cael ei ganfod yn mynd yn groes i ofynion y polisi yma yn cael ei drin yn unol â Gweithdrefn Disgyblu'r Cyngor/Cod Ymddygiad Aelodau, fel y bo'n briodol.

3.8 Yr unig eithriad i'r cyfyngiadau ar ysmygu mewn adeilad dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor yw mewn cartrefi gofal preswyl lle mae ystafell wedi cael ei dynodi lle caiff preswylwyr (ond nid gweithwyr neu ymwelwyr) ysmygu.

Mae'r Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) yn caniatáu ystafelloedd dynodedig ar gyfer preswylwyr sy'n ysmygu mewn cartrefi gofal – er nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnyn nhw i wneud hynny.

Unwaith i unigolyn symud i fyw mewn cartref gofal, y cartref gofal hwnnw yw ei gartref ef. Polisi'r Cyngor yw caniatáu i breswylwyr ysmygu mewn ystafell ddynodedig bwrpasol, lle bo'n ymarferol i ddarparu ystafell o'r fath.

Mewn rhai achosion, efallai na fydd hi'n ymarferol i ystafell ysmygu ddynodedig o'r fath gael ei darparu, gan na fyddai unrhyw ystafell o'r fath wedyn yn cael ei defnyddio gan bobl sydd ddim yn ysmygu. Er enghraifft, efallai na fydd i'r cartref gofal ystafell 'sbâr' i'w neilltuo ar gyfer ysmygwyr yn unig, ac os yw ystafell gyffredin yn cael ei dynodi'n ystafell ysmygu, yna rhaid darparu ystafell gyffredin 'dim ysmygu' hefyd ar gyfer defnydd y preswylwyr sydd ddim yn ysmygu.

Cyn caniatáu i unrhyw breswylydd ysmygu, rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal o allu meddyliol a chorfforol y preswylydd i wneud hynny heb achosi risg gormodol – er enghraifft, a fyddai preswylydd sydd â dementia yn cadw'r ymwybyddiaeth i ddiffodd sigarét

mewn blwch llwch ac nid, dyweder, bin sbwriel, neu a fyddai preswylydd sydd wedi cael strôc yn cadw'r symudedd yn ei ddwylo i afael mewn sigarét yn ddigon tynn fel na fyddai'n cael ei ollwng?

Yn ogystal â hynny, lle bo ystafelloedd ysmygu dynodedig yn cael eu darparu, dylai mesurau rheoli gael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o dân o ganlyniad i ysmygu ac i roi rhybudd cynnar a darparu ffordd o'i ddifodd pe bai tân, a hefyd i leihau'r risg o weithwyr yn mewnanadlu mwg ail law. Gallai'r mesurau rheoli yma gynnwys:

- sicrhau bod nifer ddigonol o flychau llwch addas yn cael eu darparu
- symud biniau sbwriel a deunydd llosgadwy dros ben
- sicrhau bod dodrefn a ffitiadau yn ddi-hylosg/wrth-dân, fel y bo'n briodol
- sicrhau bod synhwyrydd gwres (yn hytrach na synhwyrydd mwg) wedi'i osod yn yr ystafell sy'n ffurfio rhan o system larwm canfod tân awtomatig
- darparu diffoddwr tân dŵr a blanced tân
- caniatáu goruchwylio ysmygwyr gan weithwyr o'r tu allan i'r ystafell, megis trwy baneli gwydr mewn drysau
- darparu system echdynnu awyr mecanyddol i gael gwared ar y mwg o'r ystafell cyn gynted â phosibl; ar yr amod nad yw'r system awyru yma'n awyru i rannau eraill o'r adeilad
- sicrhau nad oes drysau sydd ddim yn cau'n fecanyddol yn syth ar ôl eu defnyddio os ydyn nhw'n agor i mewn i ardaloedd di-fwg
- cyfarwyddo gweithwyr i beidio â mynd i mewn i'r ystafell hyd nes i awr fynd heibio ers i'r sigarét ddiwethaf gael ei hysmygu (oni bai bod argyfwng).

Ar ben hynny, lle bo ystafell ysmygu newydd gael ei dynodi, dylid rhoi gwybod i'r ymgynghorwyr diogelwch tân a gynhaliodd yr asesiad risg diogelwch tân ar gyfer y cartref am y newid yma.

Yn olaf, dylid paratoi *Polisi Ysmygu ar gyfer Preswylwyr* sy'n nodi canllawiau a chyfrifoldebau clir o ran ysmygu, gan gynnwys eglurhad ar y defnydd o e-sigaréts/fêps. Dylai'r polisi yma gael ei roi ar waith ym mhob cartref gofal unigol.

## 4. YSMYGU YN YSTOD EGWYL

4.1 Fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.3, mae'r hawl gan weithwyr ysmygu yn eu hamser eu hunain yn unig, hynny yw, pan fyddan nhw'n cymryd egwyl sydd wedi'i hawdurdodi a phan na fyddan nhw'n cael eu talu gan y Cyngor (neu cyn iddyn nhw ddechrau gweithio, yn ystod eu hamser cinio neu ar ôl iddyn nhw orffen gweithio).

Ar ben hynny, mae ar weithwyr gyfrifoldeb i fod ar gael i weithio ac i beidio â bod i ffwrdd o'r gwaith heb awdurdod a, fel y cyfryw, rhaid i unrhyw 'egwyl ysmygu' o'r fath gael ei hawdurdodi yn gyntaf gan reolwr cyn i'r gweithiwr ei chymryd. Yn ogystal â hynny, rhaid i egwyliau ysmygu o'r fath gael eu cofnodi ar daflenni amser gweithwyr.

Er enghraifft:

- os ydych chi'n gweithio mewn swyddfa ac ar oriau hyblyg, rhaid i unrhyw egwyl ysmygu gael ei chofnodi ar eich taflen oriau hyblyg, a rhaid i chi lofnodi wrth fynd allan a dod i mewn
- os byddwch chi'n llofnodi wrth gyrraedd eich swyddfa ond rydych chi wedyn yn gadael y swyddfa i gyflawni'ch dyletswyddau am y diwrnod / rhan o'r dydd ac yna'n dychwelyd i'r swyddfa i lofnodi cyn gorffen, rhaid i chi gofnodi unrhyw egwyliau ysmygu rydych chi wedi'u cymryd tra rydych chi wedi bod allan yn gweithio

Ym mhob achos, fodd bynnag, rhaid i'r egwyl fod wedi'i hawdurdodi gan reolwr yn gyntaf.

4.2 Cyn ysmygu, rhaid i chi gadw at y cyfyngiadau sydd wedi'u nodi yn Adran 3 uchod yn gyntaf.

## 5. GWEITHWYR SY'N YMWELD Â CHLEIENTIAID YN EU CARTREFI

5.1 Mae'n bosibl y bydd gweithwyr y Cyngor sy'n ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi yn agored i fewnanadlu mwg ail law os bydd y cleient, neu unrhyw deulu neu ffrindiau sy'n ymweld, yn ysmygu.

O 1 Mawrth 2021 ymlaen, mae’n drosedd i unigolyn ysmygu yn yr un ystafell â'r gweithiwr sy'n ymweld â'r unigolyn, neu ganiatáu i unrhyw aelodau'r teulu neu ffrindiau sy'n ymweld ysmygu yn yr ystafell, gan fod yr ystafell yna'n dod yn weithle am yr amser y mae'r gweithiwr yn ymweld â'r unigolyn. Os yw'r unigolyn, neu unrhyw aelodau'r teulu neu ffrindiau, yn dymuno ysmygu ar yr un pryd ag y mae'r gweithiwr yn ymweld â'r unigolyn, yna rhaid gofyn iddyn nhw wneud hynny mewn rhan wahanol o gartref yr unigolyn na fydd y gweithiwr yn cael mynediad iddi yn ystod yr ymweliad.

Ar y cam cynnal asesiad (gofal cymdeithasol/gofal yn y cartref, ac ati) dylai gweithwyr hysbysu cleientiaid am bolisi ysmygu'r Cyngor a'i nod o ddiogelu gweithwyr rhag effeithiau mwg, gan gynnwys mwg ail law. Er mwyn ceisio dileu'r risg i weithwyr rhag mwg ail law, dylid gofyn i gleientiaid yn gwrtais i sicrhau na fyddan nhw (neu unrhyw ymwelwyr) ysmygu awr cyn ymweliad, ac ar bob adeg yn ystod ymweliad gan weithiwr y Cyngor.

Os yw gweithwyr yn mynd i mewn i ystafell sydd wedi'i llenwi â mwg mewn cartref cleient er gwaethaf y cais yma, dylen nhw asesu a yw'n amgylchedd diogel iddyn nhw ddarparu gwasanaeth ynddo. Pe bydden nhw o'r farn nad yw e, gallen nhw benderfynu gwneud trefniadau eraill ar gyfer darparu'r gwasanaethau, ond rhaid sicrhau ar bob adeg nad yw diogelwch a lles y cleient yn cael eu peryglu.

Bydd gweithwyr yn cael cefnogaeth lawn y Cyngor wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau yn yr amgylchiadau yma. Dylai pob achos gael ei asesu yn ôl amgylchiadau unigol a dylai gweithwyr drafod y sefyllfa gyda'u rheolwr.

Does dim hawl i weithwyr ysmygu tra byddan nhw ar ddyletswydd, gan gynnwys pan fyddan nhw gyda chleient.

## 6. ARWYDDION

6.1 Dylai arwyddion 'Dim Ysmygu' sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth 'Di-fwg' Llywodraeth Cymru gael eu harddangos ym mhob adeilad neu gerbyd mae'r Cyngor yn berchen arno, neu sy'n cael ei logi neu'i rentu gan y Cyngor.

## 7. CYSGODFEYDD

7.1 Nid polisi'r Cyngor yw darparu 'cysgodfeydd ysmygu' mewn gweithleoedd.

## 8. YMYRRAETH

8.1 Bydd pob anogaeth yn cael ei rhoi i weithwyr ac aelodau etholedig sydd am roi'r gorau i ysmygu. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall rhai ysmygwyr ei chael hi'n anodd ymaddasu i ofynion y polisi yma, a bydd yn darparu cyngor a chymorth i'r ysmygwyr hynny sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

8.2 Mae modd cael cymorth a chyngor allanol ynglŷn â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ysmygu drwy ffonio un o'r llinellau cymorth yma:

- www.helpafiistopio.cymru (ffôn: 0800 085 2219/0808 250 6061)
- GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y: Ysmygu (rhoi'r gorau) gyda Helpa fi i Stopio

- Rhoi'r Gorau i Ysmygu - Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd

## 9. CYNGOR

9.1 Mae cyngor ynglŷn â gweithredu'r polisi yma ar gael gan y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam. Ffoniwch 01443 425531 neu e-bostiwch:

CarfanIechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

.

## **RHESTR WIRIO I REOLWYR**

| | ✓ Fel y bo'n briodol | | |
|---|---|---|---|
| | Dd/B | Ie | Na |
| • Oes arwyddion 'Dim Ysmygu' dwyieithog addas ar ddangos wrth fynedfeydd ac mewn llefydd amlwg eraill yn y gweithle? | | | |
| • Oes ardal ysmygu allanol ddynodedig wedi cael ei darparu, pan fo hynny'n ymarferol? | | | |
| • Ydy'r gweithwyr yn effro i'r cyfyngiadau ynglŷn ag ysmygu yn y gweithle, ac yn gwybod bod y cyfyngiadau yn berthnasol i e-sigaréts/fêps yn ogystal ag i gynhyrchion tybaco? | | | |
| • Ydy'r gweithwyr yn gwybod nad oes hawl gyda nhw i wefru e-sigaréts/fêps yn y gweithle na mewn cerbydau mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw neu'n eu llogi neu'u rhentu? | | | |
| • Ydy'r gweithwyr yn cael gwybod bod rhaid iddyn nhw gael caniatâd eu rheolwr cyn cymryd egwyl ysmygu, a bod rhaid i bob egwyl o'r fath gael ei chofnodi? | | | |
| • Ydy'r gweithwyr yn effro i'r ffaith y gall camau disgyblu gael eu cymryd os byddan nhw'n cael eu dal yn ysmygu yn groes i'r polisi yma? | | | |
| • Os ydych chi'n Rheolwr Cofrestredig ar gartref gofal preswyl, ydych chi wedi rhoi mesurau rheoli ar waith wrth ddynodi ystafell ysmygu, wedi asesu preswylwyr cyn caniatáu iddyn nhw ysmygu ac wedi paratoi'ch *Polisi Ysmygu i Breswylwyr* eich hun? | | | |
| • Os ydych chi'n rheolwr ar weithwyr sy'n ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi, ydych chi wedi rhoi gwybod i gleientiaid am y mesurau rydych chi am iddyn nhw gael eu rhoi ar waith er mwyn amddiffyn gweithwyr rhag mwg ail law, a lle nad yw'r mesurau wedi'u rhoi ar waith, ydych chi wedi cytuno ar drefniadau amgen? | | | |
| • Ydy'r gweithwyr yn effro i'r ffaith y gall fod dosbarthiadau rhoi'r gorau i ysmygu ar gael. Ydyn nhw'n gwybod sut i fynegi diddordeb? | | | |
| • Ydy'r gweithwyr yn gwybod am y llinellau cymorth allanol? | | | |
| • Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yma'n cael eu bodloni? | | | |

Wedi'i gwblhau gan: ________________
(Llofnod)

Enw: ________________
(Llythrennau bras)

Swydd: ________________

Wedi'i gadarnhau gan: ________________
(Llofnod)

Enw: ________________
(Llythrennau bras)

Swydd: ________________

Dyddiad: ____________________ Dyddiad: ____________________